Ble allaf fi weld adroddiadau'r archwiliad?

Mae'r archwiliad yn cynhyrchu adroddiad bob blwyddyn, yn ogystal ag adroddiadau arbennig eraill. Mae'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan yn: **www.nogca.org.uk**

Pa wahanol setiau o wybodaeth rydyn ni'n cysylltu â nhw?

- Ystadegau Cyfnodau Gofal Cleifion Ysbytai (HES)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) – Data Cofrestru
- Set Ddata Radiotherapi (RTDS)
- Therapi Atal Canser Systemig (SACT, y set ddata triniaeth atal canser systemig)
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)
- Set Ddata Gwasanaethau a Chanlyniadau Canser (COSD)
- Data Cofrestru Canser
- Amseroedd Aros Canser
- Arolwg o Brofiad Cleifion Canser (CPES)

Ein partneriaid

HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership

Action Against Heartburn

BSG British Society of Gastroenterology

Guts UK!

OCSO Oxfordshire Oesophageal and Stomach Organisation
Registered Charity No: 1152733

HCUK Heartburn Cancer UK

Royal College of Surgeons Advancing Surgical Care

RCR The Royal College of Radiologists

AUGIS Association of Upper Gastrointestinal Surgery of Great Britain and Ireland

Eisiau gwybod mwy?

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

- www.digital.nhs.uk
- enquiries@nhsdigital.nhs.uk
- 0300 303 5678

v.5_11.22-CYM

NHS

Archwiliad Cenedlaethol o Ganser Oesoffago-Gastrig



Nod yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser Oesoffago-Gastrig yw gwella'r gofal i gleifion..

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Ganser Oesoffago-Gastrig yn edrych ar y gofal a gaiff cleifion canser yr oesoffagws a'r stumog mewn ysbytai ar draws Cymru a Lloegr.

Drwy edrych ar yr hyn a wna ysbytai'n awr, fe all yr archwiliad awgrymu newidiadau i wella gofal i bobl sydd â chanser yr oesoffagws a'r stumog i'r dyfodol.

Pam bod arnon ni angen eich gwybodaeth?

Mae'r wybodaeth a gesglir yn helpu'r archwiliad i ganfod:

- a yw cleifion ar draws Cymru a Lloegr yn cael gofal o'r un safon?
- beth mae ysbytai'n ei wneud yn dda a lle mae angen iddynt wella?
- pa mor llwyddiannus ydy'r driniaeth a gaiff cleifion?
- a yw ysbytai yn dilyn y canllawiau cenedlaethol ar ganser yr oesoffagws a'r stumog?

Mae archwiliadau yn fwyaf effeithiol pan gaiff gwybodaeth ei chasglu oddi wrth gynifer â phosibl o gleifion. Felly, mae pob claf yn werthfawr i'r archwiliad. Po fwyaf o gleifion y mae gennyn ni wybodaeth amdanynt, y cywiraf mae ein canlyniadau'n debygol o fod.

Pa wybodaeth gaiff ei chasglu?

Mae'r archwiliad yn defnyddio gwybodaeth gan ysbytai i ddilyn eich gofal o'r adeg pan gewch eich diagnosis.

Mae'r archwiliad yn defnyddio eich rhif GIG, eich dyddiad geni a'ch cod post i ddilyn eich siwrnai ac i ddod o hyd ichi mewn setiau eraill o wybodaeth gofal iechyd. Drwy edrych ar setiau eraill o wybodaeth, fe all yr archwiliad ganfod mwy am eich gofal a pha mor llwyddiannus fu.

Mae rhestr o'r gwahanol setiau o wybodaeth gofal iechyd y mae'r archwiliad yn eu defnyddio i'w gweld yng nghefn y daflen hon.

Weithiau mae'r archwiliad yn gofyn i ysbytai wirio bod y wybodaeth a roesant i'r archwiliad yn gywir. Mae'r archwiliad yn rhoi rhif GIG y claf i'r ysbyty i ganfod a gwirio'r wybodaeth am y claf.

Caiff gwybodaeth am gleifion unigol eu casglu ynghyd mewn grwpiau wrth ddisgrifio gofal cleifion canser yr oesoffagws a'r stumog ym mhob ysbyty. Oherwydd hynny, ni fydd modd eich adnabod yn yr adroddiadau a gyhoeddir.

Fe gewch ganfod mwy am y wybodaeth a gasglwn, am eich hawliau ac am sut rydyn ni'n gofalu am eich data: www.nogca.org.uk

Sut ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol?

Corff a sefydlwyd gan y llywodraeth i gasglu ac astudio gwybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol yw NHS Digital. Rhoddwyd caniatâd i NHS Digital ddefnyddio a storio gwybodaeth am gleifion er mwyn cynnal yr archwiliad hwn yn unol â rheoliadau caeth dan Ddeddfau Seneddol.

Cefnogi prosiectau eraill

Ar ôl sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddienw (fel na ellir eich adnabod drwyddi), caiff ei rhannu â phrosiectau eraill sy'n mesur ansawdd gofal cleifion sydd â chanser yr oesoffagws a'r stumog. Er enghraifft, fe allai'r prosiectau:

- gyhoeddi papurau mewn cyfnodolion meddygol i ddarparu gwybodaeth i staff meddygol ar y safonau gofal gorau.
- helpu cynlluniau iechyd cyhoeddus drwy ddarparu gwybodaeth megis pa mor dda mae cleifion yn ei wneud yn ddibynnol ar a gawsant ddiagnosis yn gynnar ynteu'n hwyr.

Ni chaiff eich rhif GIG, eich dyddiad geni na'ch cod post eu rhannu ar gyfer y prosiectau hyn.

Dewis bod yn yr archwiliad

Os ydych chi'n fodlon i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio yn yr archwiliad hwn, nid oes angen ichi wneud dim.

Os nad ydych eisiau i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio yn yr archwiliad hwn, cysylltwch â thîm ymholiadau NHS Digital:
enquiries@nhsdigital.nhs.uk neu 0300 303 5678

Nid yw'r gwasanaeth eithrio o ddata cenedlaethol (sydd ar gael i gleifion yn Lloegr yn unig) yn berthnasol i'r archwiliad hwn. Os ydych wedi defnyddio'r gwasanaeth eithrio o ddata cenedlaethol i atal eich cofnodion iechyd rhag cael eu rhannu ar gyfer ymchwilio a chynllunio, mae'n rhaid ichi ddal ddweud wrth dîm ymholiadau NHS Digital os nad ydych eisiau i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio yn yr archwiliad hwn.

Ni fydd dewis peidio â bod yn yr archwiliad yn effeithio ar eich gofal.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth eithrio o ddata cenedlaethol: **www.nogca.org.uk/patientchoices**